# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 49
08/03/21

## Iesu'n tawelu'r storm

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

**Paid â phoeni os na wnei di bopeth.**
**Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!**



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Rachel Hughes,
Chris Dean, Elin Bryn Williams, Greg Leavers a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

**Fersiwn Beibl.net**



Un diwrnod dwedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, “Beth am i ni groesi i ochr draw'r llyn?” Felly i ffwrdd â nhw mewn cwch. Wrth groesi'r llyn syrthiodd Iesu i gysgu. Daeth storm ofnadwy ar y llyn ac roedd y cwch yn llenwi â dŵr nes eu bod nhw mewn peryg o suddo.

Dyma'r disgyblion yn mynd at Iesu a'i ddeffro, ac yn dweud wrtho, “Feistr! dŷn ni'n suddo feistr!” Cododd Iesu ar ei draed a cheryddu'r gwynt a'r tonnau gwyllt; a dyma'r storm yn stopio, ac roedd pobman yn hollol dawel.




“Ble mae'ch ffydd chi?” gofynnodd i'w ddisgyblion.

Roedden nhw wedi dychryn ac yn rhyfeddu at beth ddigwyddodd. “Pwy ydy hwn?” medden nhw, “Mae hyd yn oed yn rhoi gorchymyn i'r gwynt a'r dŵr, ac maen nhw'n ufuddhau iddo.”

*Luc 8:22-25 Beibl.net*

**Fersiwn syml**

Un diwrnod dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, “Gadewch i ni groesi’r llyn.” Cytunodd y disgyblion a dyma nhw’n croesi’r llyn mewn cwch. Syrthiodd Iesu i gysgu wrth iddynt groesi gan bod y dŵr yn llonydd. Yn sydyn dyma storm yn cychwyn ac roedd y cwch yn llenwi â dŵr ac roedden nhw mewn peryg o suddo. Aeth y disgyblion at Iesu a gweiddi arno, “Deffra! Rydyn ni’n boddi. Rhaid i ti ein hachub ni.” Cododd Iesu ar ei draed a dywedodd wrth y storm i stopio. Stopiodd y storm yn sydyn ac roedd popeth yn dawel eto. Gofynnodd Iesu i’r disgyblion, “Pam oeddech chi â chymaint o ofn? Mae Duw yn edrych ar eich holau.” Roedd y disgyblion wedi rhyfeddu a dywedon nhw, “Pwy ydy hwn? Mae hyd yn oed y gwynt a’r tonnau’n uffudhau iddo!”



# Cwestiynau i’w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Wyt ti wedi bod mewn cwch bach rhyw dro? Wnest ti fwynhau?
2. Beth fuaset ti wedi ei wneud pe byddet ti wedi bod yn y cwch yn y stori pan ddaeth y storm?
3. Pam wyt ti’n meddwl fod Iesu wedi dweud “Ble mae eich ffydd chi?” wrth y disgyblion?
4. Beth wyt ti’n ei feddwl am Iesu ar ôl clywed yr hanes hwn?



# Gweddi fer




O Dduw, diolch i Ti dy fod gyda ni bob amser.
Diolch am dy nerth a dy allu rhyfeddol Di. Helpa fi i gofio dy fod yn agos ata i hyd yn oed pan mae pethau anodd yn digwydd i mi.
Amen.

# Stori i'w lliwio

# Iesu'n tawelu'r storm

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Pan fydd 'storm' – amseroedd anodd – yn taro ein bywydau gall Iesu dawelu'r storm a rhoi heddwch i ni. Mae o yna gyda ni i'n cadw'n ddiogel. Gall Iesu dawelu storm.



Un noson braf neidiodd Iesu a'i ffrindiau i mewn i gwch a rhwyfo ar draws y llyn.



Roedd Iesu wedi bod yn brysur trwy'r dydd yn dysgu pobl am Dduw ac roedd wedi blino'n ofnadwy. Gorweddodd i lawr a syrthiodd i gysgu.



Cododd y gwynt ac aeth y tonnau'n fwy ac yn fwy. Roedd y cwch bach yn cael ei luchio i bobman. Roedd ar ffrindiau Iesu ofn.




"Iesu, deffra. Helpa ni! Mae'r tonnau'n anferthol ac mi ydyn ni mewn perygl mawr," gwaeddodd ffrindiau Iesu.



Safodd Iesu yn y cwch. "Wynt a thonnau byddwch yn dawel!" gorchmynnodd. Ac ar amrantiad tawelodd y gwynt a'r tonnau!



Roedd ffrindiau Iesu wedi eu syfrdanu. "Pwy ydy'r dyn yma? Mae o'n gallu gofyn hyd yn oed i storm stopio!" medden nhw mewn syndod.



Roedden nhw'n gwybod eu bod yn ddiogel gyda Iesu. Mae'r Beibl yn dweud, "Pan mae arnaf ofn fe wnaf i ymddiried ynot ti."


# Dolenni




Fideo o'r stori
https://youtu.be/AEDCo16CTmA




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/9XGu1ekG0PA





Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=uYLHqdSO9OY&t=11s

# Gweddi Greadigol

## Gweddi Balwnau

Chwytha falŵn a dalia'r pen yn dynn. Meddylia am y pethau sy'n codi ofn arnat. Dywedodd Iesu wrth ei ffrindiau am iddynt beidio â bod ofn. Cymerodd ymaith eu hofnau.

Dychmyga dy fod yn y cwch gyda Iesu ar fôr garw, tymhestlog, Galilea.Fel y disgyblion mae gennym ninnau ein hofnau a gall Iesu eu cymryd ymaith pan rydyn ni'n gofyn iddo.



Wrth i ti feddwl am dy ofnau dyweda, "Distewch. Byddwch lonydd." Yna gollynga'r falŵn a gad iddi chwyrlïo o gwmpas a dychmyga dy ofnau'n hedfan i ffwrdd hefyd.

## Ofnau

**Byddi angen:**

- Cwpan blastig,glir
- Cwpan fawr
- Finegr gwyn
- 1 llwy fwrdd o bowdr pobi
- 1 llwy fwrdd o olew coginio
- Hambwrdd neu yn y sinc









Gadewch i ni wneud arbrawf er mwyn gweld beth sy'n digwydd pan fyddwn yn gadael i Iesu ddelio â'n hofnau. Caiff y gwpan dy gynrychioli di a chaiff y powdr pobi gynrychioli'r holl bethau sy'n codi ofn arnat. Mae'r olew yn y gwpan arall yn cynrychioli Iesu.
Arllwysa'r powdr pobi i mewn i gwpan fawr ac yna ychwanega'r finegr gwyn. Wrth i ti wylio'r hyn sy'n digwydd meddylia sut wyt ti'n teimlo pan mae arnat ti ofn. Yna arllwysa'r olew i mewn i'r gwpan fawr. Beth mae'r olew'n ei wneud i'r gymysgedd? Gwylia'r hyn sy'n digwydd yn awr a meddylia am Iesu'n tawelu'r storm yn yr hanes ddarllenaist ti heddiw. Cymerodd ymaith ofnau ei ffrindiau. Gall gymryd ymaith dy ofnau dithau hefyd.

# Posau

## Yn y storm

Defnyddia symbolau'r tywydd i ddod o hyd i'r adnod

| | |
|---|---|
| a | ☀ |
| e | ☁ |
| i | 🌧 |
| o | ⛅ |
| u | 🌪 |
| y | 🌨 |

"P☀n m☀☁ g☁n 🌧 ⛅fn, dw🌧'n d🌨

dr🌨st🌧⛅ d🌧. D🌪w, 🌨r 🌪n dw🌧'n


gw🌨b⛅d s🌨'n c☀dw ☁🌧 ☀🌧r!"

S☀lm 56:3-4☀

---

Mae'r llun o Iesu a'r disgyblion yn y cwch wedi ei gymysgu. Fedri di roi'r stribedi yn y drefn gywir? Ysgrifenna rifau'r stribedi yn y blychau yn y drefn iawn. Mae'r cyntaf wedi ei wneud yn barod.


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | | | | | |






*Mae'r ateb ar tudalen 8*

---



**Geriau mewn cwch**

Fedri di ddefnyddio'r wyddor cod morse rhyngwladol i ddod o hyd i eiriau o'r stori?

## Cod Morse rhyngwladol

| | | | |
|---|---|---|---|
| A | •▬ | V | •••▬ |
| B | ▬••• | W | •▬▬ |
| C | ▬•▬• | X | ▬••▬ |
| D | ▬•• | Y | ▬•▬▬ |
| E | • | Z | ▬▬•• |
| F | ••▬• | . | •▬•▬•▬ |
| G | ▬▬• | , | ▬▬••▬▬ |
| H | •••• | ? | ••▬▬•• |
| I | •• | / | ▬••▬• |
| J | •▬▬▬ | @ | •▬▬•▬• |
| K | ▬•▬ | 1 | •▬▬▬▬ |
| L | •▬•• | 2 | ••▬▬▬ |
| M | ▬▬ | 3 | •••▬▬ |
| N | ▬• | 4 | ••••▬ |
| O | ▬▬▬ | 5 | ••••• |
| P | •▬▬• | 6 | ▬•••• |
| Q | ▬▬•▬ | 7 | ▬▬••• |
| R | •▬• | 8 | ▬▬▬•• |
| S | ••• | 9 | ▬▬▬▬• |
| T | ▬ | 0 | ▬▬▬▬▬ |
| U | ••▬ | | |

# Crefft

## Troellwr Gwynt





**Byddi angen:**

Hen CD neu DVD gwag, glud PVA , brwsh, dewis o emau ar gyfer crefft, secwinau neu fotymau, siswrn, edau neilon,glir (a ddefnyddir gan bysgotwyr neu ar gyfer gwneud gemwaith)





**1**. Gosoda'r ddisg – gyda'r ysgrifen neu'r patrwm wyneb i fyny – ar ddarn o bapur i amddiffyn y bwrdd.



**2**. Arllwysa haen o lud PVA o gwmpas rhimyn y ddisg.



**3**. Gorchuddia'r glud â gemau/botymau i wneud amgylchyn.



**4**.Peintia weddill y CD â haen drwchus o lud a'i addurno. Gad y cyfan i sychu.



**5**.Torra ddarn o edau neilon,glir.



**6**.Lapia'r edau o gwmpas y ddisg a'i chlymu'n ddiogel.



Mae'r troellwr gwynt yn barod yn awr i gael ei hongian y tu allan neu'r tu mewn wrth ymyl ffenestr.





# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | W | Y | N | T | N | Y | R | CH | Y | D | U |
| FF | I | E | A | S | P | S | T | O | P | I | O |
| Y | C | W | CH | M | LL | E | N | W | I | S | R |
| DD | E | U | I | S | E | O | R | C | T | G | FF |
| L | I | DD | U | S | E | I | LL | Y | N | Y | E |
| R | RH | Y | F | E | DD | U | S | S | G | B | D |
| G | I | R | Ŵ | D | A | N | DD | T | O | L | R |
| W | G | E | L | H | Y | O | N | O | R | I | A |
| Y | A | C | DD | W | D | E | A | R | T | O | W |
| LL | R | U | G | O | R | CH | Y | M | Y | N | E |
| T | F | B | C | L | N | R | CH | O | DD | U | S |
| U | A | N | N | O | T | Y | C | Y | S | G | U |

CERYDDU
CODODD
CROESI
CWCH
CYSGU
DEFFRO
DISGYBLION
DRAW
DŴR
DYCHRYN
FFYDD
GORCHYMYN
GWYLLT
GWYNT
IESU
LLENWI
LLYN
MEISTR
OCHR
PERYGL
RHYFEDDU
STOPIO
STORM
SUDDO
TAWEL
TONNAU
TRAED
UFUDDHAU

# Sialensau

Gwna lun mawr gan ddefnyddio gwahanol ddefnyddiau.



## Achubwyr

Mae'r lluniau hyn yn cynrychioli achubwyr.
Sut maen nhw'n ein hachub ni?
Fedri di feddwl am unrhyw rai eraill?











**Adrodd y stori**
Beth am gasglu rhai gwrthrychau sydd yn y tŷ a'u defnyddio i ddweud y stori wrth dy deulu?




**<u>NEU</u>**

**Cerrig stori**
Defnyddia baent, sialc lliw neu binnau ffelt i dynnu lluniau o'r stori ar gerrig, fel y rhai yn y llun.
Defnyddia'r cerrig i adrodd y stori wrth dy deulu.



**Beth sy'n arnofio?**
Chwilia am 10 o bethau sy'n arnofio.
Bydd angen i ti brofi os ydyn nhw'n arnofio!




# Gemau

## Ras gychod

**Byddi angen:**
Cwpanau papur gloyw, darnau bach o 'Blu tack,' ffyn 'cocktail', papurau siâp hwyl, pensil, siswrn, gwelltyn i bob chwaraewr, bath gyda thua 5cm o ddŵr yn ei waelod.

**Sut i chwarae:**



- Torra ddarn o bapur yn siâp hwyl fechan.
- Gwna ddau dwll yn yr hwyl bapur, un yn y top a'r llall yn y gwaelod.
- Yn ofalus gwthia'r pren 'cocktail' trwy'r tyllau.
- Rho'r darn bach o Blutack ar waelod y cwpan papur gloyw.
- Rho waelod y ffon fach gyda'r hwyl arni i sefyll yn y Blutack. Dyma dy gwch.
- Bydd angen cwch i bob chwaraewr
- Mae pob chwaraewr yn rhoi ei gwch ar y dŵr yn y bath.
- Ar ôl cyfrif i dri, mae'r chwaraewyr yn ceisio chwythu eu cychod i ben arall y bath gan ddefnyddio gwelltyn.
- Y cyntaf i groesi sy'n ennill.

## Pasio'r peli



**Byddi angen:**

- Dwy bowlen neu fwced o ddŵr
- Peli bach
- Tyweli mawr i'w rhoi o dan y bowlenni (os wyt yn chwarae tu fewn i'r tŷ)
- Cadair

**Sut i chwarae:**

- Rho ddŵr yn y ddwy bowlen.
- Rho'r peli yn un o'r bowlenni.
- Mae'r chwaraewyr yn chwarae hon heb sanau!
- Mae'r chwaraewr yn codi'r peli o un bowlen i'r llall gan ddefnyddio eu traed.
- Pwy sy'n gallu symud y peli i gyd o un bowlen i'r llall yn yr amser byrraf?

# Canu

Hei! Distewch! Shalôm! Sshh!
Hei! Distewch! Shalôm! Sshh!
Hei! Distewch! Shalôm! Sshh! Hedd!

Dwfn, dwfn, dwfn, dwfn yng fy nghalon
Pan mae popeth yn cŵl neu'n mynd yn ddwl,
Dyna pryd rwyf angen profi heddwch Duw.

"Fy hedd, rhof i Ti." Rhodd Iesu Grist - shalôm.



*Hawlfraint 2007 Greg Leavers Cyf. Catrin Roberts*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/9XGu1ekG0PA

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - ahughes@saintygymuned.org

**Ateb pos y stribedi: 2, 6, 4, 1, 5, 3**